

Tîm Ymgysylltu Mesurau Gwella  
Coridor yr M4

**M4 (Magwyr i Gas-bach) –  
Mesurau Gwella'r Coridor**

Adroddiad Trawsgrifiad  
Gweithdy'r Cyngorau

11-

Drafft 1 | Ebrill 2011



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**ARUP**

# Cynnwys

---

	Tudalen
<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b> <span style="float: right;"><b>1</b></span>
1.1	Problemau Trafnidiaeth <span style="float: right;">1</span>
1.2	Problemau newydd <span style="float: right;">4</span>
<b>2</b>	<b>Cyrchnodau Trafnidiaeth</b> <span style="float: right;"><b>7</b></span>
2.1	Sylwadau ar gyrchnodau trafndiaeth cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru <span style="float: right;">7</span>
2.2	Cyrchnodau newydd <span style="float: right;">10</span>
2.3	Trafodaeth lawn am y Cyrchnodau <span style="float: right;">11</span>
<b>3</b>	<b>Nodau Cyffredinol</b> <span style="float: right;"><b>12</b></span>
3.1	Sylwadau ar nodau cyffredinol cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru <span style="float: right;">12</span>
3.2	Nodau cyffredinol newydd hyd at 2020 <span style="float: right;">13</span>
3.3	Nodau cyffredinol newydd o 2020 ymlaen <span style="float: right;">14</span>
3.4	Trafodaeth lawn am y nodau (hyd at 2010 a thu hwnt) <span style="float: right;">14</span>
<b>4</b>	<b>Gwerthusiadau</b> <span style="float: right;"><b>15</b></span>

# 1 Cyflwyniad

Ar ddechrau 2011 cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithdy i Gynghorau yn ardal coridor trafniadaeth Magwyr i Gas-bach, fel rhan o Raglen Ymgysylltu Mesurau Gwella Coridor yr M4. Roedd y gweithdy'n un o nifer o ddigwyddiadau, a gellir cael mwy o wybodaeth amdanynt yn [www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth](http://www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth). Am ychwaneg o wybodaeth am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach (M4 CEM), ymwelwch â thudalennau cynlluniau ffordd wefan Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn drawsgrifiad o'r taflenni gwaith a'r siartiau troi a gynhyrchwyd yn y gweithdy, ac nid yw'r testun wedi'i newid o gwbl, ac eithrio golygu syml lle'r oedd rhywbeth yn aneglur. Gellir hefyd gweld adroddiad cryno o'r gweithdy ar y wefan uchod.

## 1.1 Problemau Trafnidiaeth

### 1.1.1 Sylwadau ar restr problemau gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr adolygu dadansoddiad cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r prif broblemau trafniadaeth ar y coridor trafniadaeth hwn, dynodi a oeddent yn cytuno â'r broblem, ac ychwanegu sylwadau neu ddiwygiadau. Rhoddir trawsgrifiad isod o'r taflenni gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt.

*Mae'r testun sydd wedi'i amlygu'n felyn yn cyfeirio at destun annealladwy a dderbyniwyd ar y taflenni gwaith a lenwyd.*

<b>Problem 1. Anawsterau yn cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4 ar adegau pan fo tarfu dros dro (er enghraifft, yn dilyn damweiniau, problemau'n cael eu hachosi gan dywydd difrifol, neu yn ystod prif ddigwyddiadau)</b>	
✓	Rhai rhannau penodol yn cael eu gwaethygu. Mae anawsterau cyfathrebu'n cymhlethu'r rheolaeth a gwasanaethau. Anhawster ochr yn ochr/ <b>o gymharu?? â</b> è rhwydwaith lleol/y ddinas. Pwysau ar y rhwydwaith lleol/y ddinas -= mynediad ac allanfa - i wneud iawn
	Cadernid y rhwydwaith.
	Damweiniau difrifol yw'r brif broblem oherwydd diffyg llain galed a dyfalbarhad.
✗	

<b>Problem 2. Mae mwy o draffig yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y dyluniwyd y ffordd i ymdopi ag ef, ac mae hynny'n arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur</b>	
✓	Ni ddyluniwyd hi erioed i ymdopi â hyn. Gormod o gyffyrdd – 24, 25a, 26, 27. Milltired drwy'r ddinas? Byddai lleihau nifer y cyffyrdd yn cymhlethu problemau ar y rhwydwaith lleol/y ddinas
✗	
?	Pam nad yw dewisiadau amgen cynaliadwy'n cael eu hystyried?
	Beth yw diben yr M4? A yw'n gallu bod â diben deuol h.y. teithio pellter hir a thrafnidiaeth leol ar draws y ddinas?

<b>Problem 3. Rhagwelir y bydd lefelau traffig yn parhau i gynyddu, felly bydd problemau 1 a 2 yn gwaethygu dros gyfnod</b>	
✓	Rhagdybio fod traffig yn cynyddu. Gwersi o drefn Parcio a Theithio Caerdydd – ailgyfeirio traffig cyn cyrraedd y rhwydwaith lleol/rhwydwaith y ddinas → oni bai bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud mewn trafndiaeth gyhoeddus a chyfathrebu ar ddulliau teithio amgen – bysiau – rheilffordd – Parcio a Theithio. Cynlluniau teithio ysgolion.
	Mae cyfnodau brig yn ymestyn
	Bydd cyfnodau brig yn y bore a gyda'r nos yn ymestyn mewn amser. A fydd twf yn parhau yn sgil y dirwasgiad/grymoedd economaidd? A yw'n tyfu'n gyflymach nag y mae'r model yn rhagfynegi?
×	
?	Os yw hyn wedi'i nodi a'i brofi, pam felly nad yw teithio cynaliadwy (neu ddiffyg trafndiaeth amgen) wedi'i nodi fel problem e.e. lonydd pwrpasol i fysiau, cyfleusterau Parcio a Theithio

<b>Problem 4. Mae'r rhwydwaith trafndiaeth presennol yn gweithredu fel cyfyngiad i dwf economaidd (er enghraifft, wrth i gwmnïau cludo nwyddau weld mwy a mwy o oedi o ran dosbarthu, gallant benderfynu peidio â buddsoddi yn Ne Cymru)</b>	
✓	Ystyriwch hefyd fod y tollau ar groesfannau Hafren yn ffactor penodol.
	Trafndiaeth cludo nwyddau rhyngwladol i Iwerddon → dewisiadau amgen trwy longau/trenau. Arfer cyffredin yn Ewrop.
	Yn gysylltiedig â thollau SSC [Ail Groesfan Hafren]/Croesfan Hafren. Gallai'r sefyllfa waethygu yn sgil gwaith cynnal a chadw hanfodol. Gwella cynhwysedd a lefel gwasanaeth/croesawgar fel ateb i ganolfannau twf eraill e.e. Bryste/Caerloyw.
×	<b>P</b> Ymddygiad cyflogwyr/busnes. Modelau defnyddwyr – siopau 24 awr. Nid yw'n gyfrifoldeb/baich ar y rhwydwaith. <b>s/b</b> modelau recriwtio/busnes mwy cyfrifol. Modelau dosbarthu wedi'u cynllunio dros 24 awr.

<b>Problem 5. Mae angen gwaith cynnal a chadw hanfodol helaeth ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn golygu cyfyngiadau am gyfnodau hir ar lonydd a chyflymder, a bydd hyn yn cynyddu problemau tagfeydd</b>	
✓	Gallai gwaith cynnal a chadw ar dwneli fod yn broblem sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.
	Effaith fawr ac ychwanegol 4. Mae lle cyfyngedig ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol yn lleihau hyblygrwydd ar gyfer gweithio ac mae'n ymestyn y cyfnod gweithio. Mae gweithio negyddol yn cynorthwyo cynnal llifoedd, ond gall fod yn niwsans i bobl leol/trigolion lleol
×	<b>P</b> rhaglen weithio 24 awr. ↑ Gweithlu traffordd T&C
?	Dim digon o bwyslais ar rwydweithiau amgen e.e. rheilffordd

<b>Problem 6. Mae cerbydau nwyddau trwm yn ymdopi'n wael gyda thagfeydd am eu bod yn cymryd mwy o amser i ailgychwyn ar ôl iddynt stopio, ac mae hynny'n ychwanegu at y tagfeydd.</b>	
✓	Mae hefyd yn ychwanegu defnyddio tanwydd ychwanegol a chostau ychwanegol i gludwyr.
	Graddiant → mae'n effeithio ar gerbydau nwyddau trwm yn stopio-ailgychwyn
×	Gyrwyr tra chymwys a phrofiadol, <b>cilfantais</b> gyhoeddus yn fwy na Ford Ka, dim ychwanegiad mwy i'r tagfeydd

	Mae profiad yn awgrymu nad yw hyn yn wir. Mae'r broblem yn bodoli yn sgil digwyddiad yn ymwneud â dilyn yn rhy agos (trwy ran 50 mya)
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

<b>Problem 7. Mae'r traffig sy'n symud yn araf mewn tagfeydd ar y draffordd o amgylch Casnewydd yn ychwanegu at broblemau llygredd aer</b>	
✓	Dangoswyd bod y cyfyngiad cyflymder is (50mya) dros y 18-24 mis diwethaf wedi gwella ansawdd yr aer.
	Sail dystiolaeth
	AQMA– St Julian's, Kalpas, Cyffordd 27, Coldra. 50mya = sylwer, gostyngiad mewn rhai llygryddion yn yr AQMA dros 18 mis
	Gall y gormodedd posibl arwain at gamau gan y CE ar ??? Gallai traffordd reoledig gynorthwyo hyn.*
✗	

<b>Problem 8. Mae symudiad y traffig yn stopio ac yn ailgychwyn ar yr M4 yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr na thraffig sy'n llifo'n ddirwystr</b>	
✓	Mae'n arwain at ddefnydd tanwydd ychwanegol sylweddol.
	Yn gysylltiedig â 7 – cynnydd mewn costau tanwydd. Sail dystiolaeth.
	Mater tebyg i Rif 7.*
✗	

<b>Problem 9. Mae'r system drafnidiaeth ffordd a rheilffordd o fewn coridor yr M4 ac o'i amgylch dan berygl cynyddol o darfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol (er enghraifft, llifogydd)</b>	
✓	Eira a rhew.
	Mae'n risg yn bendant, ond mae angen diffinio patrwm y risg yn fwy manwl gywir. Nid yw safonau draenio yn addas i'r diben mwyach yn sgil yr hinsawdd yn newid – nifer yr achosion o law a dwyster y glaw
✗	Llifogydd

<b>Problem 10. Mae sŵn traffig o'r draffordd yn broblem i drigolion lleol</b>	
✓	Mae angen ystyried camau lliniaru pellach.
	Gweler gwydro, rhwystrau sŵn.
	Pryderon sŵn trigolion. Torri prysgwydd/sgrinio. Gwaith adeiladu yn ystod y nos (yn nodweddiadol 2am-3am).
	Mae'r M4 wedi'i hysbysu'n ardal gweithredu sŵn (ymgeisydd) o dan Cyfarwyddeb Sŵn y CE. Mae sŵn yn ystod y nos o weithrediadau cynnal a chadw yn fater mawr.
✗	

<b>Problem 11. Nid yw nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu porth gwell i mewn i Gymru yn cael ei fodloni ar hyn o bryd gan goridor yr M4</b>	
✓	Cytuno – nid yw'r M4 bresennol yn addas i'r diben.
	Cyfuniad o dollau'r M4. Alinio'r llwybr, osgoi Cyffordd 27 (tro sydyn). Tagfa.

	Beth yw'r nod hwn, ac ymhle caiff y porth ei ddiffinio? Ai mater canfyddiad yw hwn, neu fater o reoli traffig? Angen esboniad. Mater ehangach yn bryder mawr – gall gael ei gyfyngu gan fynediad ar y draffordd.
✘	Prif borth. Lleoliadau cludo nwyddau Traws Ewrop. → <b>s/b</b> gweithredwyr bysiau, gwasanaeth trenau.

<b>Problem 12. Mae'r system drafnidiaeth bresennol yn cyfyngu ar yr hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd.</b>	
✓	Mae'r M4 y tu allan i awdurdodaeth yr awdurdod lleol. Dylai'r M4 fod wedi mynd ymhellach i'r gogledd. Potensial i wella mynediad i gymunedau e.e. datblygu Parcio a Theithio, dewisiadau amgen. Ymagwedd gydgyssylltiedig – ymgynghorwyr ariannol rheilffordd, cyllidebau lleol, buddsoddi strategol. Mae angen integreiddio gwell.
✘	Ddim yn argyhoeddedig.

<b>Problem 13. Mae'r cyfraddau damweiniau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU</b>	
✓	Rydym yn rhagweld y bydd y VSL yn helpu'r sefyllfa hon. Cyn y cyfyngiad 50mya. Cytuno. Ond sylwer fod y gyfradd ddamweiniau wedi disgyn ar ôl y gostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder i 50mya (adroddiad heddlu Gwent i'r cyngor llawn). A oes tystiolaeth i gefnogi hyn? A fydd cyfyngiadau cyflymder amrywiol yn cynyddu neu'n lleihau'r gyfradd ddamweiniau - o gymharu â'r cyfyngiad cyflymder 50mya.
✘	Bydd y draffordd reoledig yn gwella'r sefyllfa...camau wedi'u cymryd.
?	Sut mae'r gyfradd ddamweiniau wedi newid ers gweithredu'r cyfyngiad 50mya

<b>Problem 14. Mae'r problemau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar adegau, ac mae'n tarfu'n ddifrifol ar deithio yn Ne Cymru.</b>	
✓	Cytuno. Cynhwysedd annigonol ar gyfer llofoedd ar amserau brig a diffyg dyfalbarhad. Gall achosi tarfu mawr – traffig yn sefyll yn llonydd – effeithiau economaidd a chymdeithasol mawr – colli apwyntiadau, tarfu ar gynlluniau teithio
✘	

## 1.2 Problemau newydd

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a oedd unrhyw broblemau trafndiaeth pwysig yn y coridor, a'u hysgrifennu ar sribedi o bapur siartiau troi. Gosodwyd y sribedi ar flaen yr ystafell, ac mewn rhai achosion gofynnodd yr hwylusydd am esboniad. Mae'r nodiadau esbonio yn y golofn ar y dde. Rhoddwyd y problemau mewn categorïau bras gyda chymorth y cyfranogwyr, ac fe'u dangoswyd gyda'i gilydd; dyna pam y mae'r rhifau allan o drefn.

<b>PROBLEM</b>	<b>Nodiadau'r siartiau troi a sribedi esbonio o'r drafodaeth lawn</b>
15. Dim digon o ddewisiadau amgen cynaliadwy i'r car un teithiwr e.e. blaenoriaeth i fysiau, cyfleusterau parcio a theithio, cynhwysedd rheilffordd yn benodol.	

20. Dim digon o bwylais wedi'i roi i ddewisiadau amgen cludo nwyddau yn hytrach na'r ffordd.	
16. Diffyg cynhwysedd trafndiaeth gyhoeddus i fynd â cheir oddi ar yr M4.	
17. Absenoldeb dewisiadau trafndiaeth integredig. Diffyg mynediad hawdd, clir a chyfeillgar i wasanaethau rheilffordd a bysiau.	<i>Rhaid cael cysylltiadau i fynd â phobl rhwng dulliau teithio gwahanol. Ychwanegwch gerbydau nwyddau trwm hirdeithiog ar hyn – dim darpariaeth i fynd â nhw oddi ar y ffordd ar y rheilffordd.</i>
19. Nid yw'r gwasanaeth rheilffordd yn ddigon modern (yn araf, heb ei drydanu) ac mae'n rhy ddrud i atal rhywun rhag defnyddio'r M4.	<i>Nid oedd pawb yn cytuno â hyn, ond roeddent yn cytuno ei fod yn dibynnu ar yr amser o'r dydd. Mae'r galw ar y rheilffordd hyd ei eithaf nawr.</i>
18. Tagfeydd ar yr M4 yw'r broblem fwyaf sydd gan weithredwyr bysiau lleol. Mae unrhyw dagfeydd neu rwystrau yn effeithio ar eu gwasanaethau'n syth.	<i>Nid yw bysiau lleol yn defnyddio'r M4 llawer, ond pan fyddant yn ei defnyddio, mae tagfeydd yn broblem enfawr iddynt. Mae llawer o fysiau'n defnyddio croesffyrdd er hynny, ac mae unrhyw dagfeydd ar y draffordd yn effeithio arnyn nhw, ynghyd â bysiau Casnewydd nad ydynt yn gweithredu ar yr M4 neu drwy'r M4 o gwbl.</i>
32. Tagfeydd wrth gylchfannau Pont Ebwy a Pharc Tredegar.	
30. Dim mynediad i ardaloedd Cil-y-coed / Cyffordd Twnnel Hafren, gorfod defnyddio cyffordd Magwyr.	<i>Mae traffig yn cael ei wthio ar ffyrdd lleol gan nad yw'n gallu cael mynediad i'r draffordd.</i>
29. Nid oes digon o sylw'n cael ei roi i ffyrdd amgen lleol i dynnu traffig oddi ar yr M4.	<i>Gan gynnwys pan fo damweiniau. Dylai pobl ystyried defnyddio ffyrdd lleol ar gyfer teithiau lleol.</i>
26. Effaith ganlyniadol ar ffyrdd lleol yn dilyn tagfeydd a damweiniau ar yr M4.	
27. Cyfathrebu gwael rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol ynghylch gwaith ffordd o amgylch yr M4, sy'n effeithio ar draffig yr M4.	
28a. Gwaith ar y ffordd a thagfeydd ar ffyrdd cyfagos.	
28b Diffyg llwybr cymaradwy o'r Dwyrain-Gorllewin (llwybr amgen pan fo'r M4 ar gau)	
21. Dim llwybrau dianc na rheolaeth ddigonol i ailgyfeirio traffig yn dilyn damwain ar yr M4. Dim digon o ofod ffyrdd i'w ddefnyddio fel llwybr ailgyfeirio. Cyfleusterau argyfwng annigonol.	<i>Nid oes digon o gynhwysedd Dwyrain/Gorllewin pan fo problem.</i>
22. Mae angen mwy o eglurder / cyngor i'r cyhoeddi o ran gwaith ar y draffordd sy'n cynnwys cyfyngiadau.	
23. Mae'n cymryd gormod o amser i glirio damweiniau.	
31. Mae'r cynlluniau Datblygu Lleol bron wedi'u gorffen. Dim cyffordd.	<i>Pam ydyn ni'n trafod hyn i gyd nawr ac nid yn gynharach, pan oedd Casnewydd yn datblygu'i gynllun lleol? Mae'r cynllun wedi'i orffen nawr, a does dim cyffordd newydd.</i>
25. Mae datblygiadau newydd o amgylch cyffyrdd y draffordd yn ychwanegu at y problemau.	

24. Mater sylfaenol o adeiladu gerllaw coridor yr M4 yn annog mwy o ddefnydd o'r M4 pan nad yw'r M4 yn gallu ymdopi â'r cynhwysedd.	
26. Iwerddon yw un o'r partneriaid masnachu mawr, gallai tagfeydd o amgylch Casnewydd fod yn cael effeithiau economaidd helaeth.	
33. Gormod o gyffyrdd – diffyg cysylltiadau lleol digonol rhwng cyffyrdd.	



## 2 Cyrchnodau Trafnidiaeth

### 2.1 Sylwadau ar gyrchnodau trafndiaeth cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr adolygu dadansoddiad cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r prif gyrchnodau trafndiaeth ar y coridor trafndiaeth hwn, dynodi a oeddent yn cytuno â'r broblem, ac ychwanegu sylwadau neu ddiwygiadau. Rhoddir trawsgrifiad isod o'r taflenni gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt.

<b>Cyrchnod 1. Ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru</b>	
✓	s/b strategol – ynghyd â “mwy diogel” [gol. h.y. “ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach ac yn FWY DIOGEL teithio...” Yn ychwanegol, yn fwy dibynadwy (5) a diogel (8)
✗	Anghytuno. Mae hwn yn orsymleiddio. Mae'r M4 yn darparu ar gyfer ystod eang o symudiadau, yn enwedig symudiadau rhanbarthol rhwng y Cymoedd, Casnewydd a Chaerdydd.

<b>Cyrchnod 2. Gwella'r cysylltiadau trafndiaeth i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ac ati</b>	
✓	Defnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd ar gyfer traffig [cludo nwyddau] rhyngwladol; rheilffordd modur. Integredig – manau trosglwyddo amlfodd Dylai gynnwys defnydd cynyddol o'r seilwaith rheilffyrdd er mwyn hyrwyddo cysylltedd i'r eithaf
✗	

<b>Cyrchnod 3. Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafndiaeth a dulliau trafndiaeth eraill ar gyfer siwrneiau lleol o amgylch Casnewydd</b>	
✓	Dim ond os yw'r prosiect yn cynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith lleol/rhwydwaith y ddinas Gan gynnwys ffordd gyswllt Dyffryn, safle gwaith Dur Llanwern
✗	
?	Beth am 'ddulliau eraill' ar gyfer pob siwrnai, nid siwrneiau lleol yn unig?

<b>Cyrchnod 4. Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol</b>	
✓	Gwell defnydd o dechnoleg a gwybodaeth i yrwyr (a defnyddwyr trafndiaeth)
✗	
	Ychwanegu: a rhwydweithiau trafndiaeth eraill.

<b>Cyrchnod 5. Gwneud amserau siwrneiau ar hyd coridor yr M4 yn fwy dibynadwy</b>	
✓	Ac yn fwy diogel. Dibynadwyedd, yn enwedig yn ystod adegau prysur.
✗	

<b>Cyrchnod 6. Cynyddu lefel y dewis i bawb sy'n teithio ar hyd y coridor trafndiaeth rhwng Magwyr a Chas-bach</b>	
✓	Nid oes angen i'r cyrchnod fod yn gyfyngedig i gynyddu'r dewis rhwng 23a a 29 – gellid ehangu'r cyrchnod.
	Newydd → defnyddio mwy o ddulliau cyfyngu ar alw
	Yn cynnwys mesurau ar gyfer gwella cysylltiadau rheilffordd. Parcio a theithio (dwyrain/gorllewin Casnewydd)
✘	Pam ddim Magwyr a Chas-bach. Dylai fod ar gyfer pob teithio o'r Dwyrain-Gorllewin, ond hefyd i'r Gogledd o'r A449 – Canolbarth Lloegr, ac ymhellach i'r gogledd (hefyd, cysylltiadau awyr a bysiau/bysiau teithiau hir)

<b>Cyrchnod 7. Ei gwneud hi'n haws i bobl allu defnyddio gwasanaethau allweddol, yn ogystal â chanolfannau preswyl a chanolfannau masnachol</b>	
✓	Fodd bynnag, byddai cynnydd mewn cyffyrdd yn cyflwyno materion diogelwch/amser
	Hefyd mynediad cyfleus a dibynadwy
✘	

<b>Cyrchnod 8. Gwella diogelwch ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.</b>	
✓	
✘	Gwella diogelwch ar y rhwydwaith trafndiaeth cyfan.

<b>Cyrchnod 9. Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd nesaf at yr M4 o amgylch Casnewydd</b>	
✓	Cysylltiad â chyfyngiadau cyflymder (e.e. gwelliannau wedi'u gwneud yn ansawdd yr aer yn y 18 mis diwethaf)
	Mae'n gymwys i gymunedau eraill hefyd, nid Casnewydd yn unig. Mae angen iddo fod yn amcan sy'n seiliedig ar y coridor, nid yn benodol i'r M4 yn unig.
✘	

<b>Cyrchnod 10. Lleihau'r aflonyddwch i bobl yn sgil lefelau sŵn uchel o draffig yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach</b>	
✓	Gwella sgrinio/arwyneb ffyrdd. Gweithio gyda pherchnogion cartrefi ar fesurau gwrth-sŵn gwell (e.e. tai yn ninas Casnewydd)
	Newid y cyrchnod i → lleihau'r aflonyddwch i bobl yn sgil lefelau sŵn uchel o bob dull trafndiaeth a thraffig o fewn y coridor.
✘	

<b>Cyrchnod 11. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd fesul cilomedrau cerbyd a/neu bobl</b>	
✓	
✘	

<b>Cyrchnod 12. Gwella'r profiad teithio i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4</b>	
✓	(gan gynnwys tollau Pont Hafren)
✘	

## 2.2 Cyrchnodau newydd

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a oedd unrhyw gyrchnodau trafndiaeth pwysig yn y coridor, a'u hysgrifennu ar sribedi o bapur siartiau troi. Gosodwyd y sribedi ar flaen yr ystafell, ac mewn rhai achosion gofynnodd yr hwylusydd am esboniad. Mae'r nodiadau esbonio yn y golofn ar y dde. Rhoddwyd y cyrchnodau mewn categorïau bras gyda chymorth y cyfranogwyr, ac fe'u dangoswyd gyda'i gilydd; dyna pam y mae'r rhifau allan o drefn.

CYRCHNOD	Nodiadau'r siartiau troi a sribedi esbonio o'r drafodaeth lawn
13. Mwy o ddefnydd o orsafoedd rheilffyrdd lleol. Mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd ar gyfer traffig cymudo.	
21. Annog newid moddol a newid mewn ymddygiad teithio.	
17. Cyflwyno mwy o bareffyrdd strategol er mwyn annog teithio ar reilffyrdd.	
16. Hyrwyddo dewisiadau teithio amgen i geir un teithiwr yn defnyddio'r M4.	
22a. Datblygu system drafnidiaeth integredig sy'n batrwm i Gymru, y DU ac Ewrop.	
22b. Cyflwyno ffocws cydgysylltiedig er mwyn integreiddio'r drafnidiaeth a'r prosesau a deilliannau defnyddio tir.	<i>Mae'r cynllun defnydd tir (CDU) a'r cynllun trafndiaeth rhanbarthol wedi'u hintegreiddio ar hyn o bryd, ond dim ond hyd at ryw bwynt – mae lle i wella.</i>
14. Annog a hyrwyddo teithio ar adegau tawel.	
23. Annog a blaenoriaethu i lwybrau amgen yr A449 / A470 a llwybrau cerbydau nwyddau trwm er mwyn lleihau'r galw ar yr M4.	
18. Rhoi blaenoriaeth i addysg ar gyfer gyrrwyr cerbydau nwyddau trwm o dramor, gyrrwyr ifanc nad yw'n ofynnol iddynt fel rhan o'r prawf gyrru i gael eu hasesu ar yrru ar y draffordd, a gyrrwyr tramor yn gyffredinol.	
20. Rhoi blaenoriaeth i orfodaeth ar goridor yr M4	<i>Teimlai'r grŵp fod cryn nifer o gerbydau nwyddau trwm tramor na ddylent fod ar yr M4 gan nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol.</i>
19. Gwella'r ffordd y delir â damweiniau.	<i>Cydweithredu gwell rhwng asiantaethau.</i>
15. Peri i bobl leol beidio â gwneud symudiad(au) teithiau lleol ar yr M4 o amgylch Casnewydd.	
A ddylai fod cyrchnod ar nodi'r hyn ddylai cyffyrdd neu swyddogaethau'r draffordd fod?	<i>DS taflen waith oedd hon, ni chyflwynwyd hi fel sribed.</i>

## 2.3 Trafodaeth lawn am y Cyrchnodau

Roedd ychydig o drafod cyffredinol ychwanegol am gyrchnodau a gofnodwyd ar siartiau troi, fel a nodir isod:

- Angen esbonio swyddogaeth yr M4 - a yw ar gyfer teithiau byr neu deithiau hir. Felly, gallai fod cyrchnod i'w gwneud yn llwybr strategol lleol (neu) hirdeithiog. Mae hyn yn allweddol ac mae angen ei ddatrys.
- Lleihau lefel y llygredd a gynhyrchir gan gerbydau drwy wella'r dyluniad - efallai bod rôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru i lobïo dros hyn.
- Ar hyn o bryd, mae pobl sy'n teithio i'r de o'r Cymoedd, sydd eisiau teithio i'r Dwyrain neu o'r Dwyrain i'r Gorllewin, yn cael eu sianelu i lawr at gyffyrdd Casnewydd. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am faint y traffig ar y math hwn o deithio. Pe bai llawer, gallem edrych ar eu cyfeirio i ymuno â'r M4 ymhellach i'r gorllewin neu'r dwyrain.

## 3 Nodau Cyffredinol

### 3.1 Sylwadau ar nodau cyffredinol cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr adolygu dadansoddiad cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r prif nodau cyffredinol ar gyfer rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, dynodi a oeddent yn cytuno â hwy, ac ychwanegu sylwadau neu ddiwygiadau. Rhoddir trawsgrifiad isod o'r taflenni gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt.

<b>2010-2020 Nod 1. Ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaeth hamdden a manau gweithio, ar y ffordd, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio....</b>	
✓	Mae'n fwy na dim ond pobl at wasanaethau – ond dylai fod yn darparu gwasanaethau i bobl e.e. ambiwlansys, gwasanaethau tân. “Mynediad” i wasanaethau ydyw felly? Ond gan gadw mewn cof swyddogaeth gyffredinol y draffordd fel priffordd strategol ar y lefel uchaf. Canolbwyntio ar wella'r rhwydwaith priffyrdd lleol a'r dewisiadau trafndiaeth er mwyn tynnu traffig lleol oddi ar yr M4.
✗	Newid nod Rhif 1 o Cymdeithasol i Hygyrchedd Diwygio'r nod i – Ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, canolfannau masnachol, cyfleusterau GIG rhanbarthol, ysbytai, gwasanaethau hamdden a manau gweithio, ar y ffordd, trafndiaeth gyhoeddus, (cerdded neu feicio) ←lleol.... s/b Cymdeithasol strategol s/n cyn lleol/y ddinas rhaniad Lleol anghenion trafndiaeth Strategol pellter hir llinellau amser cymorth busnes
?	Newid y drefn: cerdded a beicio, trafndiaeth gyhoeddus neu ar y ffordd. Sylwer: byddai rhoi'r gorau i ddefnyddio'r car yn ôl ac ymlaen o'r ysgol yn dileu'r rhan fwyaf o'r materion yn ymwneud â chynhwysedd y ffordd.

<b>2010-2020 Nod 2. Cefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafndiaeth fwy effeithlon ar y porth economaidd pwysig hwn i Dde Cymru</b>	
✓	“Rhanbarth economaidd De Cymru” yn hytrach na'r porth i Dde Cymru Cydnabod yr effaith ar yr economi leol (Casnewydd). → Arallgyfeirio economi Cymru a'r economi leol. Nod strategol ac yn gwbl briodol
✗	
?	Mae hwn yn safbwynt daearyddol rhy gul – mae'n bwysig i Dde Cymru gyfan a rhannau o'r Canolbarth. Mae hefyd yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws Ewropeaidd.

<b>2010-2020 Nod 3. Atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd, a lle bo'n ymarferol, darparu gwelliannau i gydbwysu yn eu herbyn.</b>	
✓	Dylai hefyd gefnogi'r amcanion ehangach a'r gofynion ar gyfer lleihau carbon, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'r fframwaith rhwydweithiau/seilwaith gwyrdd. Dylai hefyd wella, nid yn unig lleihau/atal/osgoi effeithiau negyddol - cefnogi effeithiau cadarnhaol. Dylai gynnwys nod i beidio â chynyddu allyriadau carbon. Nid yw'n sicr a ellir cyflawni'r rhain yn y cyfnod hyd at 2020 - rhai hirdymor ydynt
	Darparu pecyn trafndiaeth i gefnogi'r angen lleol. Beth yw swyddogaeth y ffordd hon – ai ffordd osgoi strategol yw hi neu a yw'n bwydo'r angen lleol.
✗	

### 3.2 Nodau cyffredinol newydd hyd at 2020

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a ddylai fod unrhyw nodau cyffredinol ychwanegol hyd at 2020, a'u hysgrifennu ar strybedi o bapur siartiau troi. Gosodwyd y strybedi ar flaen yr ystafell, ac mewn rhai achosion gofynnodd yr hwylusydd am esboniad. Mae'r nodiadau esbonio yn y golofn ar y dde. Rhoddwyd y cyrchnodau mewn categorïau bras gyda chymorth y cyfranogwyr, ac fe'u dangoswyd gyda'i gilydd; dyna pam y mae'r rhifau allan o drefn.

<b>NOD 2010 - 2020</b>	<b>Nodiadau'r siartiau troi a strybedi esbonio o'r drafodaeth lawn</b>
5. Mwy o rôl i Awdurdodau Lleol yn llunio / rheoli'r M4	<i>e.e. trwy bwerau wedi'u dirprwyo gan y Cynulliad</i>
8. Ehangu'r dewisiadau trafndiaeth sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl.	<i>e.e. Gwasanaeth sâl sydd i Gasnewydd ar hyn o bryd o safbwynt gorsafoedd</i>
7. Sicrhau effeithiolrwydd y coridor yn y dyfodol (hyd at 2020 o leiaf)	<i>Mae'r dyfodol yn ansicr, e.e. pwy a wŷr beth fydd yn digwydd i brisiau olew? A beth fydd yn digwydd i'r economi ar ôl 2020</i>
4. Sefydlu rôl yr M4 (llwybr strategol) a gorfodi hynny.	
Newid canfyddiad y cyhoedd i weld yr M4 fel llwybr strategol hir cyfrwng rheoli'r galw ymwybyddiaeth dylanwad cymell ymddygiad arwydd moesol	<i>DS nod newydd yw hwn wedi'i ychwanegu ar daflen waith, wedi'i osod nesaf at 4 am eu bod yn debyg iawn.</i>
6. Dod o hyd i ateb sy'n bodloni nod cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol heb niweidio'r un o'r lleill yn ddifrifol.	<i>Lluniwyd barnau ymhlyg wrth restru'r nodau hyn. Pryderu ynghylch sut y gall unrhyw ateb fodloni un nod ond niweidio nodau eraill – dylai unrhyw ateb fodloni'r holl nodau.</i>

### 3.3 Nodau cyffredinol newydd o 2020 ymlaen

Yn olaf, gofynnwyd i gyfranogwyr am awgrymiadau ar gyfer nodau cyffredinol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2020, eto gan weithio ar sribedi o bapur siart troi.

NOD o 2020 ymlaen	Nodiadau'r siartiau troi a sribedi esbonio o'r drafodaeth lawn
Cynyddu ffyniant a thwf economaidd a rheoli'r twf traffig o ganlyniad i hynny.	<i>Edrych ar y rhagdybiaethau sy'n cysylltu ffyniant / twf economaidd â thwf traffig. Pa dystiolaeth sydd gennym fod cysylltiad rhyngddynt?</i>
Adeiladu'r M4 newydd	

#### Nodiadau taflenni gwaith am nodau o 2020 ymlaen

Roedd nodiadau taflenni gwaith eraill a gofnodwyd gan gyfranogwyr am y testun uchod yn cynnwys:

- Materion tymor hir
- Cymunedau cynaliadwy – “ar ôl y cyfnod pan fydd olew ar ei ddrutaf”/cost ganolog
- Bydd angen i'r seilwaith fod yn hyblyg er mwyn addasu i amodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Y nod felly ddylai fod i ddatblygu seilwaith trafndiaeth integredig sy'n gynaliadwy ac yn gadarn i ymdopi ag amodau sy'n newid, ac sy'n cynnig dewis i ddefnyddwyr
- Ystyriwch y newidiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach fel ar ôl y cyfnod pan fydd olew ar ei ddrutaf, cymunedau cynaliadwy – mae angen diogelu atebion trafndiaeth i'r dyfodol:-
- Felly'r nod lefel uchel yw: “datblygu ateb(ion) trafndiaeth integredig sy'n gynaliadwy, yn hyblyg ac yn gadarn i ymdopi ag amodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir, ac sy'n cynnig dewis i ddefnyddwyr

### 3.4 Trafodaeth lawn am y nodau (hyd at 2010 a thu hwnt)


Mater arall y tynnodd y drafodaeth sylw ato oedd y dylai'r hierarchaeth trafndiaeth ddechrau gyda cherdded a beicio, gyda dulliau trafndiaeth cynaliadwy yn cael blaenoriaeth dros y cerbyd preifat.



## 4 Gwerthusiadau

Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i'r cyfranogwyr lenwi ffurflen werthuso. Rhoddir y canlyniadau isod.

**Pa mor ddefnyddiol oedd y deunydd gwybodaeth cyn y gweithdy a anfonwyd atoch o flaen llaw?**



### Text for above

*Number of participants –*  
Nifer y cyfranogwyr

*1=not at all helpful -*  
1=ddim yn ddefnyddiol o gwbl

*2=quite helpful -*  
2=eithaf defnyddiol


*3=very helpful –*  
3=defnyddiol iawn

### Sylwadau

- Nodiadau da ar y bwrdd
- Ffordd effeithiol o gasglu barnau a sylwadau
- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am gyd-destun daearyddol mesurau'r coridor
- Fel aelod o grŵp y prosiect, nid oedd dim yn newydd i mi.
- Roedd yn dynodi fod y testun yn ymwneud â Chasnewydd yn unig, ac fe rwystrodd hynny rhai rhag mynychu
- Ni chefais becyn, am fy mod i wedi dod yn lle cyfaill ar y funud olaf

- Defnyddiol iawn. Fodd bynnag! Gallai fod trafodaeth wedi bod am fesurau ymarferol y gellid eu gweithredu i gyflawni pethau ac ati – ond tybiaf mai dyma sy'n dod nesaf. Roedd llawer o syniadau gan bobl, ond ni chawsant gyfle i'w mynegi. \* (gweler C3)

### At ei gilydd, beth oedd eich barn am y gweithdy hwn?



### Text for above

*Number of participants –*  
Nifer y cyfranogwyr

*Rating –*  
Barn

*1=very poor*  
1=gwael iawn

*10=very good -*  
10=da iawn


### Sylwadau

- Cydnabod fod hyn yn 'lefel uchel' – byddai trafodaeth am yr atebion posibl wedi bod yn ddefnyddiol
- Fe wnaeth yr hwyluswyr helpu → mwy ynglŷn ag **???** amcanion?
- Fformat da.
- Fel uchod. Gan gynulleidfa ag amrywiaeth eang o gefndiroedd
- Proses â strwythur da iddi, a reolwyd yn effeithiol
- Nid oedd y rheolaeth yn arbennig o dda. Roedd y diffiniad o'r tasgau braidd yn ddryslyd.

- Roedd y cyflwyniadau'n ailadroddus, gan fod y wybodaeth gennym yn barod yn y deunydd cyn y gweithdy
- Gellid fod wedi mynd drwy'r doreth o gyflwynwyr a chyfarwyddiadau'n fwy hamddenol, er mwyn osgoi'r dryswch a deimlai rhai ar y cychwyn!!

### A fodlonwyd nodau'r dydd? Sef, eich bod

- Wedi clywed mwy am raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4
- Wedi cyfrannu eich barnau am broblemau, cyrchnodau a nodau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar Goridor yr M4, Magwyr i Gas-bach, rhwng nawr a 2020, gan fwydo i mewn i raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru



### Text for above

*Number of participants –*  
Nifer y cyfranogwyr

*1=yes -*  
1=do


*2=in part -*  
2=yn rhannol

*3=no -*  
3=naddo

### Os naddo, beth oedd yn eisiau?

- Awgrymiadau ar gyfer atebion
- Syniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y dyfodol
- Ni chlywsom ddim byd am y cynlluniau unigol sy'n ffurfio'r rhaglen ar hyn o bryd
- Gweler yr ateb i C1\*

## A oedd fformat y gweithdy'n ei gwneud hi'n hawdd i chi fynegi eich barn am y materion?



### Text for above

*Number of participants –*  
Nifer y cyfranogwyr

*Rating –*  
Barn

*1=not at all -*  
1=ddim o gwbl

*10=very easy -*  
10=hawdd iawn

### Sylwadau

- Mae'n dda gwrando ar farnau eraill
- Roedd y fformat byrddau crwn yn effeithiol - ond gormod o waith papur efallai!
- Pa neges hoffech chi ei rhoi i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â Mesurau Gwella Coridor yr M4?
- Adeiladwch bareffordd wrth gyffordd Twannel Hafren
- Os yw ffordd liniaru'r M4 yn flaenoriaeth, yna rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ariannu'r cynnig gan mai tymor byr yn unig fydd unrhyw ateb arall, a gall yn wir gyfyngu ar adfywio economaidd
- Gwnewch bethau'n iawn y tro cyntaf
- Peidiwch â chau mynediad i'r M4 yng Nghasnewydd
- Caniatewch i awdurdodau lleol gynnig mwy o fewnbwn i'r rheolaeth o'r M4 a'r broses benderfynu

- Edrychwch ar ffyrdd o symud traffig oddi ar yr M4 nad oes angen iddo ei defnyddio e.e. Parcio a Theithio, Cyswllt Dyffryn a Queensway
- Roedd y sylwadau am yr agenda trafniadaeth gyhoeddus yn niferus ac yn amrywiol. Gobeithio bydd y strategaeth yn cefnogi cysylltiadau i gyffordd Twnnel Hafren
- Adeiladwch M4 (newydd) gan gadw'r M4 fel llwybr strategol. Caewch gyffyrdd i draffig lleol.
- Nid yw gwasanaethu De Cymru gyfan a thu hwnt rhwng dwy lôn yn nhwneli Brynglas yn mynd i weithio fyth. Byddai'r ysgogiad i'r economi yn sgil prif gynllun ffordd (M4 newydd) yn werthfawr eithriadol o ran helpu economi De Cymru i godi'n uniongyrchol o'r dirwasgiad, yn ogystal â holl fuddion hygyrchedd gwell.
- Ai tagfeydd ydyw neu dagfeydd ar adegau prysur? Allwn ni ysgogi defnyddio ceir ar adegau tawel?
- Mae angen cysylltiadau cryfach rhwng proses Mesurau Gwella Coridor yr M4, cynlluniau trafniadaeth rhanbarthol a chynllunio defnydd tir
- Ystyriwch drefn gwrthlif ar yr M4, sef bod traffig presennol y draffordd yn teithio i'r dwyrain a thraffig M4 newydd yn teithio i'r gorllewin, neu fel arall (dewis rhatach). Cyflwyno bysiau ysgol yn enwedig ar lefel ysgol gynradd (byddai hyn yn datrys % sylweddol o'r defnydd o'r M4). Agor neu greu mwy o orsafoedd rheilffordd llai trwy ddefnyddio/uwchraddio leiniau rheilffordd presennol
- Angen mynd i'r afael â chyllido seilwaith allweddol yng Nghymru
- Canolbwyntiwch ar deithio amgen yn hytrach na gwelliannau ffordd. Edrychwch ar y tymor hir yn hytrach na'r trefniadau/gwelliannau tymor byr arferol. Mewn gwirionedd, ni fydd M4 yn cael ei huwchraddio, felly mae angen i ni ganolbwyntio ar welliannau mewn trafniadaeth gyhoeddus, gan gynnwys trefniadau cludo nwyddau.
- Ailagor **H???**Magwyr Gwndy. Symud traffig oddi ar ffyrdd yr M4/M48
- Rhoi gwybodaeth lawn am gynigion yn gyson i'r cyhoedd a'r awdurdodau unedol
- Sicrhewch fod y gwaith o ddatblygu atebion trafniadaeth yn cael ei gysylltu a'i integreiddio â chynllunio ehangach ar gyfer defnydd tir, cynllunio gofodol, lleihau carbon a diffygion amgylcheddol yn Ne Ddwyrain Cymru, Cymru a'r DU yn ehangach. Mae angen cyd-destun cynllunio arbenigol llawn, a Chynlluniau Gwlad a Thref. Hefyd, ystyried dewisiadau ac atebion 'sicrhau'r dyfodol' sy'n ystyried materion tymor hir fel allyriadau carbon, y newid yn yr hinsawdd, y fframwaith naturiol a chymunedau cynaliadwy.
- Ymddengys mai tacteg oedi yw'r ymgynghoriad hwn er mwyn osgoi gorfod ymgymryd â'r prosiect a gwario arian
- Rwy'n pryderu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud penderfyniad i fabwysiadu mesurau 'meddal' dewis doethach, gan anwybyddu'r mater tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r astudiaethau pellach ar y materion

'meddalach' yn dangos canlyniadau negyddol, ac felly ni fyddant yn cael eu gweithredu'n llawn i ddileu'r angen am ffordd newydd.

- Roedd pawb mewn unrhyw un o'r grwpiau yn feirniadol o'r penderfyniad i ganslo'r cynigion ar gyfer yr ail M4, ac roedd eu sylwadau'n dweud mai ond chwarae â'r problemau y mae'r ymarferiad hwn ar y gorau, ac ni all fynd i'r afael â phroblemau presennol yn effeithiol. Fodd bynnag, fe wnaethom gytuno bod y nodau ac ati yn rhai teilwng. Mae'r amodau economaidd presennol yn ymwneud â materion olew drud. Awgrymwyd hefyd y gallai fod lawn mor fforddiadwy i gynnal, cyfnerthu a rheoli, yn hytrach na rhagdybio twf economaidd yn y dyfodol, a bydd ffyniant yn cynyddu y tu hwnt i'r hyn sydd gennym yn barod.